# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

### PENNOD 1

TROSOLWG A DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

*Trosolwg*

**147 Trosolwg o'r Rhan**

Mae'r tabl a ganlyn yn darparu trosolwg o'r Rhan hon—

TABL 1

| PENNOD | CONTRACTAU MEDDIANNAETH Y MAE'N BERTHNASOL IDDYNT | CYNNWYS Y BENNOD |
| --- | --- | --- |
| 1 | Pob contract meddiannaeth (ac eithrio adran 151, nad yw ond yn gymwys i gontractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig) | (a) ffyrdd y gellir terfynu contractau meddiannaeth,<br>(b) amgylchiadau y gall landlordiaid wneud hawliad i'r llys i adennill meddiant o annedd oddi tanynt, ac |

| PENNOD | CONTRACTAU MEDDIANNAETH Y MAE'N BERTHNASOL IDDYNT | CYNNWYS Y BENNOD |
|---|---|---|
| | | (c) "hysbysiadau adennill meddiant", sef hysbysiadau y mae'n rhaid i landlordiaid eu rhoi i ddeiliaid contractau cyn gwneud hawliad meddiant o dan adran 157 (tor contract), adran 161 (mewn perthynas â seiliau rheoli ystad), adran 165 neu 170 (adennill meddiant yn dilyn hysbysiad deiliad y contract), adrannau 181 a 187 (ôl-ddyledion rhent difrifol) neu adran 191 (adennill meddiant ar ôl defnyddio cymal terfynu deiliad y contract). |
| 2 | Pob contract meddiannaeth | Amgylchiadau penodol pryd y gall contractau meddiannaeth derfynu heb hawliad meddiant. |
| 3 | Pob contract meddiannaeth | Hawliadau meddiant gan landlordiaid—<br>(a) ar y sail fod deiliad y contract wedi torri'r contract, a<br>(b) ar seiliau rheoli ystad. |
| 4 | Contractau diogel | Hawl deiliad y contract i derfynu'r contract. |
| 5 | Contractau safonol cyfnodol | (a) hawl deiliad y contract i derfynu'r contract, a<br>(b) hawliau'r landlord i derfynu'r contract a gwneud hawliad meddiant. |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| PENNOD | CONTRACTAU MEDDIANNAETH Y MAE'N BERTHNASOL IDDYNT | CYNNWYS Y BENNOD |
|---|---|---|
| 6 a 7 | Contractau safonol cyfnod penodol | (a) yr hyn sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod,<br>(b) hawl deiliad y contract i derfynu'r contract, a<br>(c) hawliau'r landlord i derfynu'r contract a gwneud hawliad meddiant. |
| 8 | Contractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig | Adolygiad gan landlord, pan fo'n ofynnol gan ddeiliad y contract, o benderfyniad y landlord i roi hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol ildio meddiant ar seiliau penodol. |
| 9 a 10 | Pob contract meddiannaeth | (a) pwerau'r llys mewn perthynas â phob hawliad meddiant, a<br>(b) pwerau'r llys mewn perthynas â hawliadau meddiant sy'n ymwneud â seiliau meddiant yn ôl disgresiwn. |
| 11 | Contractau diogel | Pwerau a dyletswyddau'r llys mewn perthynas â hawliadau meddiant sy'n ymwneud â hysbysiad deiliad y contract. |
| 12 | Contractau safonol | Pwerau a dyletswyddau'r llys mewn perthynas â hawliadau meddiant sy'n ymwneud â seiliau meddiant absoliwt. |
| 13 i 15 | Pob contract meddiannaeth | (a) hawliau'r landlord pan fo deiliad y contract yn cefnu ar yr annedd,<br>(b) terfynu a gwahardd pan fo cyd-ddeiliaid contract, a<br>(c) fforffedu a rhybudd i ymadael heb fod ar |

| PENNOD | CONTRACTAU MEDDIANNAETH Y MAE'N BERTHNASOL IDDYNT | CYNNWYS Y BENNOD |
|---|---|---|
| | | gael mewn perthynas â chontractau meddiannaeth. |

*Terfynu a ganiateir, hawliadau meddiant a hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol ildio meddiant*

**148 Terfynu a ganiateir etc.**

(1) Ni chaniateir terfynu contract meddiannaeth ond yn unol ag—

(a) telerau sylfaenol y contract sy'n ymgorffori darpariaethau sylfaenol a ddynodir yn y Rhan hon neu delerau eraill a gynhwysir yn y contract yn unol â'r Rhan hon, neu

(b) deddfiad.

(2) Nid oes dim yn yr adran hon yn effeithio ar—

(a) unrhyw hawl sydd gan y landlord neu ddeiliad y contract i ddad-wneud y contract, na

(b) gweithrediad cyfraith llesteirio.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

(a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a

(b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

**149 Hawliadau meddiant**

(1) Ni chaiff y landlord o dan gontract meddiannaeth wneud hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r annedd oddi wrth ddeiliad y contract ("hawliad meddiant") ond yn yr amgylchiadau a amlinellir ym Mhenodau 3 i 5 a 7.

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

(a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a

(b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

**150 Hysbysiadau adennill meddiant**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad adennill meddiant y mae'n ofynnol i landlord ei roi i ddeiliad contract cyn gwneud hawliad meddiant.

(2) Rhaid i'r hysbysiad (yn ogystal â nodi'r sail ar gyfer gwneud yr hawliad)—

(a) datgan bwriad y landlord i wneud hawliad meddiant,

(b) rhoi manylion y sail, ac

(c) datgan ar ôl pa ddyddiad y gall y landlord wneud hawliad meddiant.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Mae’r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth.

*Hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol ildio meddiant: contractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig*

**151 Contractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig: hysbysiadau o dan adrannau 173 a 181**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys i—

(a) hysbysiad a roddir yn unol ag adran 173 (hysbysiad gan landlord) mewn perthynas â chontract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig;

(b) hysbysiad adennill meddiant a roddir yn unol ag adran 181 (ôl-ddyledion rhent difrifol) mewn perthynas â chontract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig.

(2) Rhaid i’r hysbysiad (yn ogystal â chydymffurfio gydag unrhyw ofynion eraill o dan y Ddeddf hon) hysbysu deiliad y contract am yr hawl i wneud cais am adolygiad o dan adran 202 (adolygiad gan landlord), a’i hysbysu erbyn pryd y mae’n rhaid gwneud y cais.

(3) Mae’r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol rhagarweiniol a phob contract safonol ymddygiad gwaharddedig.